# CREU'R SBARDUN
## Cylchlythyr Creu Conwy
Haf 2024

DIWYLLIANT
CONWY
CULTURE

Croeso i newyddlen haf 2024 – cipolwg ar weithgareddau diwylliant, celfyddydau a threftadaeth yn ystod hanner cyntaf eleni.  Yn ogystal â'r gweithgareddau cymunedol gwych, mae Theori Newid wedi'i datblygu ar gyfer Strategaeth Ddiwylliannol Creu Conwy ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gofnodi effaith gymdeithasol diwylliant a'r gwahaniaeth mae'n ei wneud.  Mae ein prosiect Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cefnogi sector diwylliant y sir hefyd – mae sgyrsiau wedi'u cynnal gyda mwy nag 80 o sefydliadau ac mae hyn yn helpu i lywio cyfleoedd hyfforddiant a datblygu.

## Amdani! Conwy yn Mynd o Nerth i Nerth


Gwirfoddolwr Amdani!

Mae mwy nag 80 o wirfoddolwyr wedi cofrestru ar gyfer ein partneriaeth wirfoddoli gynhwysol gyda CGGC a Chelfyddydau Anabledd Cymru, Spirit of 2012, ac mae bron i 100 o leoliadau gwirfoddoli wedi cael cefnogaeth!
Mae'r prosiect yn paratoi i recriwtio mwy o wirfoddolwyr ym mis Medi. Mae'r uchafbwyntiau diweddar yn cynnwys:

•Cefnogi gwirfoddolwyr o Wcráin i drefnu digwyddiadau diwylliannol ar gyfer eu cymuned.
•Bu ein gwirfoddolwyr anabl yn cydweithio gydag actorion, awduron a gwneuthurwyr ffilmiau o Hijinx a TAPE i greu ffilm hyfforddiant newydd am gyfathrebu cynhwysol.
•Gweithio gydag Eglwys Sant Crwst a Jones the Dance i ddod â dawns a gefnogir gan Iaith Arwyddion Prydain i gymunedau gwledig a B/byddar Conwy gyda chefnogaeth Cynllun Noson Allan | Night Out Cyngor Celfyddydau Cymru.


Gwirfoddolwyr Amdani!

"Mae Amdani! wedi bod yn gysylltwyr amhrisiadwy, maent wedi cyfarfod a chyfateb ein hegni i wneud hyn yn llwyddiant a thrwy eu llysgenhadon gwirfoddol wedi casglu cynulleidfa F/fyddar arwyddocaol iawn." – Kama Roberts, Cynhyrchydd, Jones the Dance.

Cliciwch i gael gwybod mwy am Amdani! Conwy

## Mynediad Newydd at Archif Ddarlledu Genedlaethol

Mae adnodd "Cornel Clip" yr Archif Ddarlledu Genedlaethol ar agor yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy a Llyfrgell Llanrwst bellach! Mae'n darparu mynediad at gasgliadau clyweledol y Llyfrgell Genedlaethol sy'n cynnwys mwy na 400,000 o eitemau o ddeunydd archif radio, teledu a ffilm - dim ond yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth oedd modd cael mynediad i'r archif hon o'r blaen.



Arddangosfa Deiseb Heddwch

## Deiseb Heddwch – Dathlu Canmlwyddiant

Ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, llofnododd 400,000 o ferched o Gymru ddeiseb heddwch! 100 mlynedd yn ddiweddarach, mae Archifau Conwy wedi bod yn gweithio gyda phrosiect Deiseb Heddwch Merched Cymru ac mae'r gweithgareddau wedi cynnwys; lansio arddangosfa yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy, a grëwyd ar y cyd rhwng yr artist Rachel Evans a phlant ysgol lleol, a digwyddiadau i wirfoddolwyr sydd â diddordeb mewn trawsgrifio'r ddeiseb.


Celc yr Oes Efydd Abergele

## Arddangosfeydd Newydd a Dathlu Hanes Lleol

Mae gwrthrychau o Gasgliad Oes Efydd Abergele a ddarganfuwyd yn ddiweddar wedi'u harddangos yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy.  Bydd gweithgarwch sy'n ymwneud â'r darganfyddiadau yn digwydd yn y Ganolfan Ddiwylliant a Llyfrgell Abergele.
Yn dilyn lansio arddangosfa Tŷ'r Congo/Sefydliad Affricanaidd yn Llyfrgell Bae Colwyn, mae rhagor o gyllid wedi'i ddyfarnu i archwilio'r cysylltiadau rhwng y Sefydliad a Nelson Mandela - bydd hyn yn galluogi ymgysylltiad ag ysgolion gan gefnogi comisiynu celf gyhoeddus a fydd yn codi ymwybyddiaeth a dathlu'r agwedd bwysig hon ar hanes lleol.

Dysgwch Fwy am Wasanaeth Archifau Conwy

# Llenwi – Arwyddion Cyrchfan




Sesiwn Llenwi Rhys Trimble

Mae gweithdai cymunedol ac ymgysylltiad ar-lein wedi cynnig cyfle i gyfrannu delweddau, geiriau a straeon i ysbrydoli'r cynnwys ar gyfer arwyddion cyrchfan sy'n seiliedig ar leoedd. Bydd artistiaid y prosiect, Livi Wilmore a Tomos Jones, gyda chefnogaeth y bardd, Dr Rhys Trimble, yn defnyddio'r syniadau i lywio'r gwaith celf ac elfennau digidol y gosodiadau a gobeithio y byddan nhw'n troi'n dirnodau lleol.

Gan weithio gyda phartneriaid, mae safleoedd yn Abergele, Conwy, Bae Colwyn, Llandudno a Llanrwst wedi'u nodi ac mae caniatâd cynllunio'n cael ei drefnu lle bo angen.

Fe fydd y prosiect wedi'i gwblhau cyn diwedd mis Mawrth 2025 - Cliciwch i gael gwybod mwy



Arddangosfa 'A Bay View' a Mwy

# Oriel Colwyn

Dros y 6 mis diwethaf, yn ogystal ag amserlen brysur o weithdai, mae Oriel Colwyn wedi creu 6 arddangosfa ffotograffig. Uchafbwynt oedd 'A Bay View', a gafodd ysbrydoliaeth gan brosiect 'Omnibus' 1973 hanesyddol Daniel Meadows. Gan weithio gyda'r ffotograffydd Mark McNulty, sefydlwyd stiwdio ffotograffiaeth dros dro mewn uned wag yng nghanolfan siopa Bae Colwyn. Galwodd mwy na 300 o bobl heibio i gael tynnu eu llun a chawsant eu cynnwys mewn arddangosfa bortreadau a osodwyd yng nghyntedd adeilad y cyngor, Coed Pella.
Oherwydd ei lwyddiant, datblygwyd prosiect dilynol 'A Bay View Extra' a chafodd 640 o ffotograffau pellach eu tynnu yn nigwyddiad Prom a Mwy a Digwyddiad Balchder Bae Colwyn – a chafodd y gwaith ei arddangos yn Oriel Colwyn.

Mae 'Talk Photo', rhaglen newydd o sgyrsiau am ddim bob pythefnos gan ffotograffwyr yn cyflwyno ffotograffwyr byd-enwog, uchel eu proffil, i gynulleidfaoedd lleol. Maen nhw wedi bod yn boblogaidd iawn a bydd y gyfres hon yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn.



Arddangosfa Oriel Colwyn

Fe wnaeth Oriel Colwyn barhau i gefnogi myfyrwyr ffotograffiaeth Coleg Llandrillo a chynllunio arddangosfeydd diwedd blwyddyn myfyrwyr FdA ym mis Chwefror a BA ym mis Mai yn yr oriel. Daeth nifer dda iawn i'r arddangosfeydd a'r digwyddiadau agored ac maent yn cefnogi myfyrwyr celfyddydau gweledol newydd fel rhan bwysig o'r gwaith rydym ni'n ei wneud.

Bydd arddangosfa 'Ffotograffydd Dogfennol y Flwyddyn' y Gymdeithas Ffotograffig Frenhinol yn agor yn Oriel Colwyn ddechrau mis Awst. Os wnaethoch chi fethu arddangosfeydd Bay View, byddan nhw ar gael i'w gweld ym Mhorth Eirias o fis Awst hefyd.

Cliciwch ar y ddolen hon am fwy o wybodaeth.




Sesiwn Ddawns dan arweiniad Kseniia

# Creu Conwy yn y Gymuned

Mae prosiect Creu Conwy Cymunedol yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gyrraedd pobl a allai wynebu rhwystrau wrth gael mynediad at gyfleoedd diwylliannol a chreadigol. Hyd yma, mae'r canlynol wedi'u darparu trwy'r prosiect:

•Sesiynau dawns ar gyfer y gymuned o Wcráin dan arweiniad yr artist Kseniia Fedorovykh. Fe'u cynhaliwyd yng Nghanolfan y Drindod, Llandudno.

•Partneriaeth rhwng Ysgol Bod Alaw a Chartref Gofal Llys Elian, gyda sesiynau dan arweiniad yr artist Amber Smit - mae disgyblion a phreswylwyr y cartref gofal wedi bod yn archwilio chwedlau'r Mabinogi drwy gelfyddyd weledol.

•Bu Cwmni Buddiannau Cymunedol Making Sense yn darparu sesiynau synhwyraidd dan arweiniad artist mewn canolfannau anableddau dysgu – Canolfan Marl a Chanolfan Riviere.

Bydd gweithgareddau sydd i ddod trwy'r prosiect yn cael eu cysylltu â'r Coleg Adfer (grŵp Lles Meddyliol Conwy), cartref gofal Cartrefle yn Llanrwst, grŵp Versus Arthritis, grŵp anableddau yn Abergele a Hyder yn dy hun (grŵp cyflogadwyedd).



Gweithdy Mary Thomas

# Cynghreiriau Creadigol yn Arwain y Ffordd



Garanod Heddwch – Eglwys y Santes Fair, Conwy

Mae 5 Tîm Tref Creu Conwy wedi datblygu prosiectau diwylliannol ar y cyd – wedi'u hariannu trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, mae'r gweithgareddau prosiect yn cynnwys:

- **Conwy:** Garanod Heddwch - cydweithrediad rhwng Gweinidogaeth Bro Celynnin a Gwarchodfa Natur Pensychnant sy'n dathlu'r berthynas rhwng Conwy a Himeji yn Japan. Yn dilyn cyfres o weithdai cymunedol, mae 1,500 o garanod origami mewn arddangosfa yn Eglwys y Santes Fair.
- **Abergele:** Gan weithio gyda thema Bwystfilod a Dreigiau chwedlonol, mae cyfres o weithdai dwyieithog wedi'u cynnal. Cafodd draig a grëwyd gan Pea Restall / Peculiar Gallery ei harddangos fel rhan o benwythnos cyffrous o ddigwyddiadau ym Mharc Pentre Mawr.
- **Llandudno:** Mae Amgueddfa Llandudno wedi arwain ar weithgareddau creadigol sy'n gysylltiedig â'r arddangosfa Longest Yarn sydd i ddod – teyrnged 80 metr o hyd wedi'i gwau i goffau glaniadau D-Day, a gaiff ei gosod ym mis Hydref.
- Cynhaliodd Dance Collective ddigwyddiad Twmpath llwyddiannus, i ddathlu'r gefeillio diwylliannol gyda Gwlad y Basg. Bu 160 o bobl yn mwynhau'r digwyddiad cerddoriaeth fyw a dawns a llwyddodd perfformiad ar bromenâd Llandudno i ddenu cynulleidfa fawr.
- **Llanrwst:** Cynhaliwyd sioe sinema gymunedol i ddathlu diwedd y tymor yn y Llyfrgell. Mae gwaith cynllunio'n mynd rhagddo ar gyfer gŵyl Dafydd ap Siencyn, prosiect celf ffenestr siop wag, a phrosiect planetariwm.
- **Bae Colwyn:** mae prosiect yn mynd rhagddo i ddiogelu adnoddau treftadaeth lleol, ac mae cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer gosodiad 'lumiere' y gaeaf a gorymdaith. Mae Bayside Radio yn creu podlediadau sy'n ymwneud â hanes y sîn gerddoriaeth leol.



Noson Ffilm Llanrwst

# Meithrin ein Doniau yn y Diwydiant Cerddoriaeth




Digwyddiad Basecamp

Mae Gigs y Gaeaf Ifanc wedi ceisio creu cyfleoedd rhwydweithio, datblygu sgiliau, mentora a pherfformio i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sy'n dymuno gweithio yn y diwydiant cerddoriaeth. Comisiynwyd Beacons Cymru a buont yn gweithio gyda Menter Iaith Conwy a Cherddoriaeth a Ffilm Gymunedol TAPE i ddarparu'r gweithgaredd a oedd yn cynnwys:

## Diwrnod y Diwydiant Cerddoriaeth Basecamp

Fe gynhaliwyd y rhaglen ym mis Mawrth yng Nghanolfan Tape yn Hen Golwyn, ac roedd yn cynnwys sgyrsiau, gweithdai a pherfformiadau ac wedi'i chynllunio a'i chyd-gynhyrchu gyda 4 o bobl ifanc. Roedd 50+ o bobl yn bresennol ac mae'r ffilm hon wedi cofnodi rhai o agweddau'r diwrnod.

Gwyliwch y ffilm yma - Gigs y Gaeaf Ifanc

## Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifanc

Cafodd 3 Pherson Ifanc eu mentora a'u hyfforddi trwy bob agwedd ar gynnal eu digwyddiadau cerddoriaeth fyw llwyddiannus eu hunain. Yn ogystal â'r profiad ymarferol, cawsant gyfle i gymryd rhan mewn achrediad Gwobr Gelf.

"Mae wedi bod yn wych ac mae wedi fy helpu i ddatblygu cysylltiadau lleol. Rydw i'n gweithio gyda phobl wnes i gwrdd â nhw fel rhan o'r broses o gynnal y digwyddiad hwn er mwyn datblygu gofod stiwdio arall i gefnogi pobl ifanc lleol i gael profiad ac rwy'n gobeithio y bydd hyn yn cefnogi fy nyhead i adeiladu sîn lleol." - Cyfranogwr Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifanc, Gigs y Gaeaf Ifanc

## Gigs y Gaeaf 2024



Garanod Heddwch – Eglwys y Santes Fair, Conwy

Wrth edrych ymlaen, rydym yn gyffrous o fod yn gweithio gydag amrywiaeth o leoliadau, sefydliadau cymunedol, Amdani! Conwy a thîm Digwyddiadau Conwy i ddod â gŵyl gerddoriaeth fyw arall i'r sir yn ddiweddarach eleni.

# Llyfrgelloedd yn Cefnogi Cymunedau a Chynhwysiant Digidol

Mae llyfrgelloedd wedi bod yn brysur yn mynychu digwyddiadau sy'n hyrwyddo'r cynnig craidd a darparu mwy o gefnogaeth i chwilio am swyddi, gwybodaeth, a mynediad digidol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan fforwm newydd 'Conwy Ddigidol'. Mae'r partneriaid (sy'n cynnwys Llyfrgelloedd Conwy, Creu Menter, Coleg Llandrillo, Heddlu Gogledd Cymru, Age Connect a llawer mwy) yn cwrdd yn rheolaidd i rannu gwybodaeth ac adnoddau i fynd i'r afael ag allgáu digidol yn Sir Conwy.

Cliciwch ar y ddolen hon am fwy o wybodaeth



Llanfairfechan – Digwyddiad Dementia

## Siwrneiau Creadigol Tuag at Les


Gweithdy Tim Pugh

Mae Taith, prosiect **'Celf Mewn Iechyd'** yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth â Mind Conwy a Thîm Lles Meddyliol Conwy, gyda chyllid trwy Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r arweinydd, Katie Ellidge, wedi gweithio gyda chyfranogwyr i gydgynhyrchu rhaglen o weithgareddau hyblyg wedi'u harwain gan artistiaid. Mae sesiynau wedi cynnwys cyfryngau cymysg, cyanoteip a chelf amgylcheddol. Mae'r adborth wedi bod yn bositif hyd yma. Mae'r dyfyniadau'n cynnwys:

"Mae dod i'r sesiynau hyn wedi rhoi pwrpas i mi a rhywbeth i edrych ymlaen ato ar ddiwedd yr wythnos"

"Roeddwn i bob amser wedi meddwl nad oeddwn i'n greadigol ac na allwn i wneud y math hwn o beth ond mae dod i'r gweithdai hyn wedi rhoi mwy o lawer o hyder ynof fy hun i mi"

"Rwy'n teimlo'n bryderus ac yn poeni fel arfer, ond rwyf wrth fy modd mor ddigyffro a hapus rwy'n teimlo ar ôl dod i'r sesiynau hyn"

Bydd y prosiect yn cynnwys cyfleoedd datblygu 'celf mewn iechyd' ar gyfer artistiaid hefyd ac mae adnodd lles meddyliol a ysbrydolwyd gan y sesiynau yn cael ei ddatblygu.

## Creu Conwy Ifanc

Mae'r rhaglen Pobl Ifanc Greadigol yn cynnig gweithgareddau amrywiol dan arweiniad artistiaid ar gyfer pobl ifanc rhwng 0 a 25 oed ac mae dros 1600 o bobl ifanc wedi cymryd rhan.



Pobl Ifanc o TAPE yn creu'r ffilm

Mae'r ffilm fer hon, yn dangos y gwahaniaeth mae cyfleoedd creadigol yn ei wneud, ymrwymiad yr artistiaid sy'n arwain y sesiynau a chreadigrwydd a brwdfrydedd y cyfranogwyr. Mae adborth o weithgareddau diweddar a ariannwyd trwy Gyngor Celfyddydau Cymru, Grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy yn cael ei adolygu i lywio cynlluniau. Bydd darpariaeth hyd at ddiwedd eleni yn cael ei chefnogi gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

"Fel teulu o chwech gyda phedwar o blant dan 7 oed rydw i'n ddiolchgar iawn ein bod ni'n gallu mynychu gan fod digwyddiadau teuluol fel arfer tu hwnt i'n cyllideb.  Mae un o fy mhlant yn awtistig ac yn ddi-eiriau ac os gallech weld pa mor hapus yw hi i fod yn greadigol yn nosbarthiadau Wendy, mae'n hudolus i'w weld" – Mynychwr Criw Celf Bach

Dilynwch y ddolen hon i gael gwybod mwy


Clwb Graff



Dangosiad ffilm Creu Conwy Ifanc yn TAPE


Digwyddiad Niwrowahaniaeth



Prom a Mwy 2024

Noddir Creu Conwy gan Lywodraeth y DU drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

DIWYLLIANT CONWY CULTURE

I gael gwybod mwy, neu i archwilio cyfleoedd cydweithio, mae croeso i chi gysylltu â Thîm Creu Conwy

www.diwylliantconwy.com
creu@conwy.gov.uk
01492 576139
diwylliantconwyculture